## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 28 Ebrill 2025** gan ddefnyddio **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes (gadawodd am 10:57) | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones (gadawodd am 11:25) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matthew Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Elgan Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Rhian Williams | Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Fe wnaeth y Clerc, y Dirprwy Glerc a'r Trysorydd oll ddatgan buddiant yn Eitem 21, gan roi cadarnhad y byddent yn gadael y cyfarfod cyn i'r papur hwnnw gael ei drafod.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 20 IONAWR 2025**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2025 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 20 Ionawr 2025 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Mewn perthynas â pharagraff 5.1 o'r cofnodion, nodwyd bod arolwg y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o Dechnegau Diffodd Tân bellach wedi'i gwblhau a bod y drafft terfynol ar gael. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Gorffennaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gwaith ar argymhellion yr adroddiad eisoes wedi dechrau.

5.2 Mewn perthynas â pharagraff 5.3, dywedwyd wrth yr Aelodau fod PSTC Stuart Millington wedi penderfynu ymddeol ac y byddai'n gadael ddiwedd mis Mehefin. Roedd DBST Stewart Forshaw hefyd wedi penderfynu ailgyflwyno ei hysbysiad ymddeol a byddai yntau'n gadael ar ddiwedd y mis. Rhoddwyd diolch i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino dros flynyddoedd lawer o wasanaeth, ac am eu cyfraniad sylweddol i waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y Cadeirydd a'r Aelodau'n adleisio'r diolchiadau hyn.

5.3 Gofynnodd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod, y Cynghorydd Doleman, a ellid rhoi ei diolch personol hi i DBST Forshaw am ei ymroddiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Gwasanaeth. Roedd ei gyfraniad yn sylweddol ac roedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y Gwasanaeth.

5.4 Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi mynd i angladd Brian Gorling.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau i roi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ynddynt yn eu capasiti swyddogol rhwng Ionawr a Mawrth 2025.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth yn y papur.**

**7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS**

7.1 Cyflwynodd PSTC Jones bapur ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR). Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio ac i brofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

7.2 Cadarnhaodd PSTC Jones fod Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi ymrwymo i lofnodi cytundeb ar y cyd, a'i fod bellach wedi'i lofnodi ar lefel weithredol gan Ben Selby.

7.3 Cydnabuwyd gwaith caled ac ymroddiad aelodau grŵp yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, yn enwedig Terry Ledden a Rebekah Uden o Undeb y Brigadau Tân a Nick Roberts a Tom Weston, sef Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a gofynnodd PSTC Jones a'r Aelodau am i'w diolchiadau gael eu rhoi iddynt. Rhoddodd y Cadeirydd a'r PST hefyd eu diolch i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r broses bwyllog a hirhoedlog hon, gan eu llongyfarch am ddod i gytundeb ar y cyd.

7.4 Gofynnwyd sut y byddai hyn yn lleihau'r risg hysbys o ran darpariaeth yn ystod y dydd mewn ardaloedd gwledig, ac eglurodd PSTC Jones mai bwriad y cytundeb ar y cyd oedd gwneud y gorsafoedd amser cyflawn presennol yn hunangynhaliol, h.y. aildrefnu eu darpariaeth eu hunain yn ystod absenoldeb, amseroedd dechrau a gorffen, gwyliau blynyddol ac yn y blaen, gan y byddai hynny yn rhyddhau rhywfaint o gyllid o gyllideb y nifer presennol o swyddi (sefydliad) gan alluogi i wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol gael ei gynnig mewn partneriaeth â'r garfan ar alwad yn yr ardaloedd mwy gwledig. Byddai hyn yn cael ei werthuso bob chwarter dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

7.5 Gofynnodd y PST ymhellach a ellid nodi nad symudiad tuag at fodel staffio dydd oedd hyn, ond yn hytrach symudiad tuag at griwiau cnewyllyn, pan fo diffoddwyr tân amser cyflawn yn ffurfio criwiau gyda diffoddwyr tân ar alwad yn yr ardal honno.

7.6 Dywedodd Aelod bod y pwnc hwn wedi bod yn destun trafod ers tro byd, a holodd a oedd dyddiad gweithredu yn Ionawr 2026 yn ddigon buan o ystyried bod y risgiau angen sylw cyn gynted ag sy'n bosibl. Atebodd y PST trwy ddweud y byddai rhywfaint o gyllid o gronfeydd trawsnewid y Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i gynnal y cynllun peilot mewn gorsafoedd erbyn dechrau Medi 2025. Fodd bynnag, gan y gallai gymryd rhywfaint o amser i'r cyllid gael ei ryddhau, byddai rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu neilltuo i brofi ac i gynnal y cynllun peilot criwiau cnewyllyn erbyn Haf 2025.

7.7 Dywedodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cymryd rhywfaint o amser i gael cytundeb ar fater yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a'i bod yn debygol o gymryd rhywfaint o amser i weithredu datrysiadau ar gyfer mater mor ddyrys.

7.8 Holodd y Cadeirydd pam na ddewiswyd cynnal cynllun peilot o batrymau shifft un ar ddeg awr, ac fe atebodd y PST trwy ddweud bod y Gwasanaeth yn ystyriol o argymhellion y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ynghylch lliniaru'r perygl o ddiffoddwyr tân yn gorflino. Fodd bynnag, dewiswyd mynd i'r afael â hyn ar wahân i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gan ailymweld â hyn yn y dyfodol agos.

7.9 Dywedodd Aelod fod perthynas y Gwasanaeth gydag Undeb y Brigadau Tân wedi bod yn drawsnewidiol, a bod tystiolaeth amlwg o gydweithredu er budd dyfodol gwell i'r Gwasanaeth, o ran yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn ogystal â'r prosiect Canolfan Hyfforddi. Cafodd y Swyddogion eu llongyfarch am y newid hwn ym mherthynas y Gwasanaeth gydag Undeb y Brigadau Tân.

7.10 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
**ii) nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth ddrafftio Cytundeb ar y Cyd a bod cytundeb arno mewn egwyddor wedi'i sicrhau gan Undeb y Brigadau Tân mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ar 4 Ebrill 2025;**
**iii) gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl barfïon i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
**iv) chydnabod, drwy ddangos hunangynhaliaeth fel hyn, fod lle i ystyried cyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio swyddi o'r nifer presennol o swyddi sy'n weddill i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol ar draws Gogledd Cymru.**

## 8 DIWEDDARIAD AR BROSIECT Y GANOLFAN HYFFORDDI

8.1 Cyflwynodd PSTC Evans y Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi, sef diweddariad strategol ar gynnydd prosiect Canolfan Hyfforddi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gynnwys datblygiadau diweddar o'r gweithdai achos busnes a gynhaliwyd ym mis Ebrill, y sefyllfa risg ddiweddaraf, yr amserlen ddiwygiedig, a'r meysydd ffocws ar hyn o bryd.

8.2 Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Cynghorydd Sandilands am ei gyfraniad fel Hyrwyddwr y Ganolfan Hyfforddi. Rhoddodd y Cynghorydd Sandilands amlinelliad o ganlyniadau allweddol prosiect y ganolfan hyfforddi, a dywedodd ei fod yn ymroddedig i weithio tuag at sicrhau bod y Gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol ac i allu agor canolfan hyfforddi ragorol yn brydlon ac o fewn y gyllideb, a hynny er mwyn rhoi hyfforddiant o'r safon uchaf i ddiffoddwyr tân y Gwasanaeth. Roedd yr Aelodau'n cytuno â hyn.

8.3 Dywedodd y Trysorydd y dylai Aelodau fod yn ymwybodol o ymrwymiad ariannol sylweddol y prosiect hwn, ac y dylid mynd ar ôl cyllid grant Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu cymaint o'r prosiect ag sy'n bosibl, yn enwedig o ystyried argymhellion y Prif Gynghorydd Tân ac Achub.

8.4 Holodd Aelod a oedd perygl na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid os yw'r gwaith ar y prosiect yn parhau, gan y gallent ystyried bod hyn yn arwydd y gellid ei gwblhau heb gyllid allanol. Atebodd PSTC MacArthur trwy ddweud mai gwaith i symud y prosiect i'r cam nesaf sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, i greu'r dyluniad ac i ddatblygu'r costiadau a'r modelau cyllido. Roedd hyn yn cynnwys ceisio pob adnodd posibl gan Lywodraeth Cymru.

8.5 Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Jones i'w amharodrwydd i fwrw ymlaen â'r prosiect heb gyllid gan Lywodraeth Cymru gael ei nodi, ac atebodd y Cynghorydd Sandilands trwy ddweud y byddai gohirio'r prosiect yn arwain at fwy o gostau i'r Gwasanaeth o ran chwyddiant a'r prosiect yn llithro, ond roedd yn cytuno y dylid cael y rhan fwyaf o gyllid gan bartneriaid yn hytrach na chan awdurdodau lleol.

8.6 Dywedodd Aelod fod yn well gan Lywodraeth Cymru weld prosiect sydd wedi'i baratoi ac sy'n barod i'w adeiladu cyn iddyn nhw neilltuo cyllid, felly roedd gyrru ymlaen â'r prosiect ar y cam hwn yn bwysig.

8.7 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r llwybr critigol a'r targed diwygiedig ar gyfer cwblhau RIBA Gateway 4 (Ebrill 2027);**
- **ii) nodi'r cynnydd wrth ddiffinio cwmpas, manyleb, a model cyflawni trwy weithdai achos busnes;**
- **iii) nodi'r risgiau allweddol a nodwyd ar gofrestr risg y prosiect a'r mesurau sydd ar waith i'w lliniaru; a**
- **iv) nodi cyfatebiaeth strategol y Ganolfan Hyfforddi newydd â nodau llesiant a rheoli risg cymunedol ehangach y Gwasanaeth.**

## 9 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL O WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

9.1 Cyflwynodd PST Docx adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol o’r Gwasanaeth i'r Aelodau, a chadarnhaodd y camau nesaf o ran taith ddiwylliannol y Gwasanaeth.

9.2 Pwysleisiodd PST Docx fod Llywodraeth Cymru’n awyddus i weithio gyda’r Gwasanaeth a’i gefnogi, trwy roi cyllid a thrwy gynnig arbenigedd, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod sut becyn y gellid ei gynnig.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cydnabod derbyn adroddiad yr adolygiad diwylliannol annibynnol;**
**a**
**ii) chymeradwyo'r cais am gymorth ariannol neu "mewn ffyrdd eraill" gan Lywodraeth Cymru i barhau â thaith ddiwylliannol y Gwasanaeth.**

## 10 PROSES BENODI AR GYFER SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

10.1 Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am y trefniadau i recriwtio ar gyfer un o’r ddwy swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) wag.

10.2 Eglurwyd mai cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd penodi i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac felly roedd angen sefydlu Pwyllgor Penodi. Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae angen chwe aelod o'r Panel Gweithredol ar Bwyllgor Penodi, a gofynnwyd i'r rhai sy'n gymwys fynegi eu diddordeb y tu allan i'r cyfarfod.

10.3 Nododd yr aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod cydbwysedd o ran amrywiaeth ymysg aelodau'r panel.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi’r broses fel yr amlinellir yn y papur;**
**ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiadau; a**
**iii) chymryd camau priodol i sicrhau bod cydbwysedd amrywiaeth ar y panel penodi.**

## 11 ALLDRO DROS DRO 2024/25

11.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid, ddiweddariad i'r Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024/25, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

11.2 Diolchodd y Trysorydd i Elgan am y gwaith a wnaed i lunio'r papur a nododd fod llawer o'r wybodaeth eisoes yn hysbys i'r Awdurdod. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y Llys Apêl wedi dyfarnu o blaid y sector cyhoeddus mewn perthynas â Firelink ac felly nid oedd hyn bellach yn risg ariannol.

11.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r blaenamcan alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 fel y manylir yn yr adroddiad;**
**ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, tariffau, a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi;**
**a**
**iii) chymeradwyo'r symudiad i/o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.**

**12 CADARNHAD O'R GYLLIDEB AR GYFER 2025/26**

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Gadarnhad o'r Gyllideb ar gyfer 2025/26, gyda'r nod o roi'r newyddian diweddaraf i'r Aelodau ynghylch y gyllideb refeniw a chyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

12.2 Gofynnwyd sut y byddai'r rhagolwg o 3.2% ar gyfer y dyfarniad cyflog yn cael ei reoli'n fewnol. Eglurodd PSTC MacArthur fod sawl swydd wag o fewn y Gwasanaeth nad oeddent yn bwriadu eu llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a byddai hyn yn galluogi i'r gost gael ei hamsugno. Holodd Aelod a fyddai hyn yn golygu y byddwn yn mynd i'r flwyddyn ariannol nesaf gyda phwysau cost i lenwi'r swyddi gwag hyn, a chadarnhaodd PSTC MacArthur hynny; fodd bynnag, roedd y gyllideb gyflogau yn un o'r meysydd lle ceir craffu manwl gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, a byddent yn rhoi sylw i hyn.

12.3 Rhoddodd Cadeirydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb sicrwydd ynghylch lefel y craffu ar y gyllideb a diolchodd i bawb a oedd yn ymwneud â hyn am eu gwaith caled.

12.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw derfynol o £52.389 miliwn;**
**ii) cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n dod i gyfanswm o £0.601 miliwn;**
**iii) cymeradwyo Cyllid Cyfalaf o £6.103 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26;**
**iv) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i dalu costau datblygu o oddeutu £2.100 miliwn ar gyfer y ganolfan hyfforddi yn ystod y flwyddyn; a**
**v) nodi effeithiau posibl materion cadwyn gyflenwi byd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol, a allai effeithio ar gynllunio ariannol yn y dyfodol.**

## 13 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2025–26

13.1 Cyflwynodd y Trysorydd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025–26, a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026.

13.2 Tynnodd sylw pellach at ffigyrau allweddol yn yr adroddiad, sef terfyn awdurdodedig o £36m, ffin weithredol o £33m, ac isafswm darpariaeth refeniw o £3m.

13.3 Gofynnodd Aelod beth oedd y ganran mewn perthynas â chyllid newydd ac ailariannu benthyciadau presennol. Atebodd y Trysorydd trwy ddweud bod y manylion hyn i'w cael yn Nhabl 1 y papur.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.**

## 14 DATGANIAD POLISI TÂL 2025/26

14.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Tâl 2025/26 a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf). Tynnwyd sylw at rannau allweddol o'r papur.

14.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**ii) chymeradwyo'r broses ariannu a dyrannu cyfalaf.**

## 15 CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2025/26

15.1 Cyflwynodd PSTC Jones Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 i'r Aelodau. Roedd hwn yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025–2026 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig ac yn ceisio cymeradwyaeth ar y fersiwn derfynol o'r dogfennau uchod.

15.2 Diolchwyd i'r swyddogion hynny a weithiodd ar y papur, a nodwyd ei fod eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Panel Gweithredol.

15.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a**
**ii) chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025–26 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i'w cyhoeddi.**

## 16 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/25

16.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) i'r Aelodau, a oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

16.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r Adroddiad Blynyddol.**

## 17 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – CYLCH GWAITH

17.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Cylch Gwaith i'r Aelodau, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Tynnwyd sylw at feysydd allweddol o'r Cylch Gwaith.

17.2 Dywedodd y Trysorydd bod cworwm aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi bod yn destun pryder, ac y byddai'r newidiadau hyn yn sicrhau y gellid cynnal y busnes gofynnol.

17.3 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw gynlluniau i symud oddi wrth fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai moesegol, ac atebodd PSTC MacArthur nad oedd gan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân unrhyw fuddsoddiadau sylfaenol, er bod atebolrwydd. Fodd bynnag, edrychwyd ar y buddsoddiadau sylfaenol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan ei fod yn gynllun sy'n cael ei gefnogi gan asedau.

17.4 Eglurodd y Trysorydd ymhellach fod gan Gyngor Sir y Fflint eu bwrdd pensiwn eu hunain a oedd yn gyfrifol am y cynllun pensiwn llywodraeth leol, ac mai nhw oedd yn dylanwadu ar y buddsoddiadau ac yn craffu arnynt.

17.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cwmpas a gofynion Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol;**
**ii) nodi argymhelliad y Bwrdd Pensiwn Lleol i ddiwygio'r cworwm; a**
**iii) chymeradwyo Cylch Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.**

## 18 CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – DIWEDDARIAD AR YR HERIAU CYFREITHIOL

18.1 Dywedodd PSTC MacArthur wrth yr Aelodau mai diben y papur Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch y newidiadau statudol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn sgil heriau cyfreithiol sylweddol. Roedd y rhain yn cael eu galw fel arfer yn ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2). Rhoddwyd crynodeb o fanylion y papur.

18.2 Nodwyd bod adroddiad wedi'i wneud i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gan na lwyddodd y Gwasanaeth gyflawni'r gofynion statudol.

18.3 Holodd Aelod ai'r Awdurdod sy'n ysgwyddo'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r heriau cyfreithiol hyn, a chadarnhaodd PSTC MacArthur hynny.

18.4 Gofynnwyd hefyd a oedd digon o allu gan y Gwasanaeth i ymdopi â'r heriau hyn, ac atebodd PSTC MacArthur nad oedd staff ar gael yn genedlaethol ar hyn o bryd i ddod i mewn i gefnogi tîm pensiynau'r Gwasanaeth ac felly roeddent yn ymdopi â'r llwyth gwaith cystal ag y gallent.

18.5 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r cynnydd o ran gweithredu Dyfarniad McCloud;**
- **ii) nodi bod adroddiad wedi'i wneud i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gan nad yw'r Gwasanaeth wedi gallu cyflawni'r gofynion statudol; a**
- **iii) nodi'r sefyllfa o ran gweithredu Dyfarniad O'Brien.**

## 19 CRYNODEB O REOLAU'R WEITHDREFN CONTRACTAU 2025

19.1 Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid, Elgan Roberts, Grynodeb o Reolau'r Weithdrefn Contractau ar gyfer 2025 i'r Aelodau, a'i bwrpas oedd cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Contractau'r Awdurdod, yn dilyn diwygiadau i gyd-fynd â Deddf Caffael 2023, a weithredwyd ar 24 Chwefror 2025.

19.2 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y papur eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, a'u bod wedi argymell iddo gael ei gymeradwyo.

19.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo Rheolau'r Weithdrefn Contractau**

## 20 Y DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

20.1 Cyflwynodd PSTC Jones Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno, ac i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod.

20.2 Clywodd yr Aelodau bod y papur eisoes wedi'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol, a'u bod wedi argymell iddo gael ei gymeradwyo.

20.3 Gofynnodd yr Aelodau i'w diolch gael ei roi i'r Rheolwr Ardal Sandra Williams a oedd yn ymddeol ddiwedd y mis.

20.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

**21 PENODI SWYDDOG MONITRO A THRYSORYDD**

21.1 Gadawodd y Clerc, y Dirprwy Glerc a'r Trysorydd y cyfarfod yn unol â'u datganiadau o fuddiant.

21.2 Rhoddodd PST Docx gyngor i'r Aelodau ar ofynion swyddi statudol y Swyddog Monitro a'r Trysorydd a cheisiodd gymeradwyaeth i ymestyn y penodiadau presennol hyd at 31 Mawrth 2027.

21.3 Roedd y Panel Gweithredol eisoes wedi trafod hyn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025. Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd ynghylch perfformiad y trefniadau presennol, cymeradwyodd y Panel Gweithredol yr argymhelliad i ymestyn y contractau ar gyfer y Swyddog Monitro a'r Swyddog A151 hyd at 31 Mawrth 2027.

21.4 Holodd Aelod am sefyllfa'r Awdurdod pe digwyddai rhywbeth i'r Trysorydd, gan mai unigolyn ydoedd yn hytrach na sefydliad. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai hi neu'r Pennaeth Cyllid yn gwneud y swydd yn y cyfamser, gan fod gan y ddau y cymwysterau priodol.

21.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gofyniad i benodi i rolau statudol Trysorydd a Swyddog Monitro; a**
**ii) chymeradwyo'r argymhelliad i ymestyn y trefniadau presennol i 31 Mawrth 2027.**

**MATERION BRYS**

22.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:29**